**PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO**

Hysbysiad penderfyniad – Cyfarfod, 18 Mai, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Ms. B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorwyr: V.J. Bailey, Mrs. P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.J.G. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands, Ms. S. Sivagnanam ac S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr: L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd Ms. S. Sivagnanam yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant

EITEM AGENDA 5. GWASANAETHAU CYMDOGAETH A THRAFNIDIAETH – POLISI A FFIOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER GOSOD EITEMAU AR BRIFFORDD (BYRDDAU A CHADEIRIAU, GOFOD MASNACHU TU ALLAN, BYRDDAU HYSBYSEBU, SGIPIAU, SGAFFALDIAU) (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Derbyn cynnwys adroddiad y Cabinet a'r Polisi a'r Ffioedd ar gyfer Gosod Eitemau ar Briffordd (Byrddau, Cadeiriau, Gofod Masnachu tu Allan, Byrddau Hysbysebu, Sgipiau, Sgaffaldiau).

Rheswm dros yr argymhelliad

Ar ôl i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ystyried y Polisi a'r Ffioedd arfaethedig

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 2020/21 Y 4YDD CHWARTER AC AMSERLEN Y BLAENRAGLEN WAITH FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2021/22 (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir wedi eu cwblhau yn Atodiadau A i D i'r adroddiad.

(2) Nodi Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad F i'r adroddiad, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio 2021/22.

(3) Nodi Blaenraglen Waith y 4ydd Chwarter sydd ynghlwm yn Atodiad E yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad G yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2&3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Er gwybodaeth.